Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Bangor On Dee Childcare

**Ysgol Sant Dunawd**
**Ffordd Sandown**
**Bangor Is-y-coed**
**Wrecsam**
**LL13 0JA**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Bangor On Dee Childcare

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Bangor on Dee Childcare |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Nia Brophy |
| Person â gofal | Vicki Smith |
| Nifer y lleoedd | 40 |
| Ystod oedran y plant | 2 i 11 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 22 |
| Nifer y plant sy'n derbyn cyllid ar gyfer addysg gynnar | 9 |
| Diwrnodau/amseroedd agor | Yn ystod y tymor a gwyliau ysgol rhwng 8am a 6pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg | Nac ydy |
| Dyddiad yr arolygiad diwethaf gan AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf ers ail gofrestru. |
| Dyddiad yr arolygiad diwethaf gan Estyn | Dyma'r arolygiad cyntaf ers ail gofrestru |
| Dyddiad yr arolygiad hwn | 27/6/2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Datblygu amser byrbryd i wneud y mwyaf o gyfleoedd dysgu

A2 Datblygu cyfleoedd pellach i blant ddatblygu sgiliau datrys problemau

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant:**

Mae gan y plant lais a gwrandewir arnynt; perchir eu dewisiadau. Er enghraifft, mae'r plant yn dewis anifail o gân Old McDonald ac yn gwneud sŵn yr anifail yn eiddgar. Mae nifer o'r plant yn dewis deinosoriaid i fyw ar y fferm ac mae pob un ohonynt yn ymuno â'r rhuo ag awch. Mae'r plant yn manteisio ar ddigonedd o gyfleoedd i wneud dewisiadau gan gynnwys p'un a ydynt yn chwarae dan do neu yn yr awyr agored. Mae'r plant â llai o sgiliau lleferydd yn hyderus wrth hysbysu eu hanghenion ac yn deall bod yr ymarferwyr yno i'w cefnogi a'u helpu. Mae bron bob un o'r plant yn penderfynu'n rheolaidd ble maent am eistedd i wrando ar stori ac i fwynhau eu cinio.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus yn chwarae ochr yn ochr â'u ffrindiau. Maent yn llawn cyffro i fynd allan, ac yn cymryd rhan yn gyflym mewn gweithgareddau fel cymysgu llysiau gyda mwd i wneud cawl. Mae'r plant yn ail-greu'r profiad pan fyddant yn gwneud cawl cennin a thatws ac yn annog eraill i arogli'r llysiau. Mae eu bodlonrwydd yn amlwg wrth iddynt wenu a dangos i'w ffrindiau beth maent yn ei wneud. Mae'r plant hŷn yn siarad yn hyderus am gartrefi a theuluoedd ac yn dangos lle mae dant wedi cwympo allan ac yn trafod ymweliad gan y dylwythen deg yn falch. Mae gan y plant berthnasoedd hynod gadarnhaol â'r ymarferwyr, ac maent yn hapus i fynd atynt i gael sicrwydd.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n arbennig o dda, er enghraifft, mae'r plant o wahanol oedrannau'n chwarae gyda'i gilydd gyda synwyryddion metel yn y tywod yn dod o hyd i drysor di-ben-draw. Maent yn garedig i'w gilydd, er enghraifft wrth godi taten sydd wedi disgyn oddi ar y plât. Mae bron bob un o'r plant yn rhannu adnoddau'n hynod effeithiol, er enghraifft rhoi eu synhwyrydd metel i ffrind a oedd am ymuno â'r chwarae. Mae ganddynt ddiddordeb gwirioneddol yn yr hyn y mae eu ffrindiau yn ei wneud a gwnânt sylwadau adeiladol. Gwrandawant yn dda ar yr ymarferwyr a phan ofynnir iddynt, golchant eu dwylo cyn bwyta ac wrth ddod i mewn o'r ardd. Maent yn hapus ac yn brysur ac, er nad yw rhai yn gallu dweud cymaint y maent yn mwynhau dod i chwarae gyda'u ffrindiau, mae'n dangos yn eu gwên.

Mae'r plant yn weithgar ac yn dysgu trwy chwarae. Mae digon o chwerthin pan fyddant yn chwarae. Maent yn cymryd arnynt eu bod yn chwilotwyr yn dod o hyd i drysor yn y tywod. Mae'r plant yn coginio ac yn rhannu prydau â'i gilydd ac yn chwarae gyda'r castell. Maent yn dangos balchder yn eu cyflawniadau, gan ddangos eu sgiliau gan ddefnyddio teclyn rheoli o bell i bylu'r goleuadau a sain y gerddoriaeth. Maent yn wên o glust i glust wrth gwblhau jig-so dyrys yn llwyddiannus neu lwyddo i blicio oren bach. Mae'r plant yn dysgu am y byd o'u cwmpas trwy deithiau cerdded lleol a thyfu a bwyta ystod o ffrwythau a llysiau yn effeithiol.

Mae'r plant yn datblygu annibyniaeth yn eithriadol o dda ac yn teimlo'n gartrefol gyda'r drefn ddyddiol. Maent yn datblygu sgiliau cydbwysedd yn llwyddiannus trwy ioga dyddiol ac yn rholio eu matiau i fyny yn effeithlon wedyn. Mae'r holl blant yn defnyddio'r ystafell ymolchi yn hyderus ac yn golchi eu dwylo yn annibynnol. Mae'r plant yn cymryd tost yn eiddgar ar gyfer yr adar, gan gerdded yn gyflym ac yn bwrpasol i'r awyr agored. Mae eu hiaith yn datblygu'n dda trwy'r sgyrsiau niferus a

gânt â'i gilydd ac ymarferwyr. Mae'r plant yn dysgu sut i siarad Cymraeg sylfaenol yn addas trwy eiriau ac ymadroddion syml a thrwy ganu caneuon gyda'i gilydd.

**Dysgu (dim ond yn berthnasol i blant tair neu bedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae sgiliau corfforol y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda. Maent yn cymryd rhan yn hyderus mewn ystod dda o weithgareddau corfforol megis yn ystod y sesiwn ioga dyddiol, gan ddangos cydsymud a chydbwysedd da. Mae'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn ymateb yn dda i gyfleoedd i chwarae gydag ystod eang o adnoddau diddorol y maent yn eu trin yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio ystod dda o offerynnau taro ac offerynnau cerddorol yn hyderus. Maent yn mwynhau chwarae'r drwm llaw bach, gan wneud patrwm o sain sy'n ailadrodd wrth iddynt droelli'r drwm rhwng cledrau eu dwylo. Gwrandawant yn astud ar y sain ailadroddus y mae'r drwm yn ei greu. Mae gan lawer sgiliau datblygedig a dangosant lefel dda o ddeheurwydd wrth drin offer llaw megis sisyrnau wrth dorri rhuban i addurno eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos dealltwriaeth dda o'r eirfa Gymraeg y mae'r ymarferwyr yn ei defnyddio. Mae'r plant yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r cymeriad Ticw sy'n gyfarwydd iddynt, ac wrth eu bodd yn gwrando ar y straeon amdano. Mae llawer yn siarad yn hyderus ac yn eglur i raddau helaeth. Ymatebant ag aeddfedrwydd cynyddol i gwestiynau heriol gan yr ymarferwyr, sy'n awgrymu y gallai tŷ mwy i'r moch fod yn welliant. Mae'r mwyafrif yn cymryd rhan mewn trafodaeth aeddfed â'r ymarferwyr ac mae ganddynt ddigon o hyder i gyfiawnhau eu gweithredoedd. Mae llawer o'r plant yn mwynhau eistedd a gwrando ar stori, gyda'r ymarferwr, ar eu pen eu hunain neu gyda ffrind. Maent yn mwynhau troi'r tudalennau a gweld beth sy'n digwydd i'r gwahanol gymeriadau, gan ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau am y stori. Maent yn adnabod eu henwau ar y bloc pren bach wrth gofrestru ar ddechrau'r sesiwn, ac yn gosod eu henwau ar y goeden gofrestru. Mae llawer yn defnyddio sialc i wneud marciau ar y byrddau neu ar y ddaear y tu allan. Mae gan y mwyafrif sgiliau echddygol manwl sydd wedi'u datblygu'n dda, ac sy'n magu eu hyder wrth drin gwahanol ddeunyddiau lliwio ac ysgrifennu.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio ystod o adnoddau technolegol yn hyderus. Maent yn defnyddio'r til ym meddygfa'r milfeddyg i dalu eu biliau, ac yn darganfod y gwrthrychau metel sydd wedi'u cuddio yn y tywod gan ddefnyddio'r synwyryddion metel llaw. Maent wrth eu bodd yn clywed y synwyryddion yn canu pan fyddant yn darganfod gwrthrych metel arall o dan y tywod. Mae rhai ohonynt yn dechrau deall mai dim ond ar gyfer rhai defnyddiau y mae'r synhwyrydd yn bipio. Maent hefyd yn defnyddio'r microsgop yn hyderus wrth edrych ar wrthrychau bach iawn.

Mae llawer o'r plant yn dyfalbarhau'n dda yn ystod cyfnodau estynedig o chwarae di-dor. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn chwarae yn yr ardal synhwyraidd, yn edrych trwy'r tiwb optegol, yn arbrofi ar y gwahanol ffynonellau golau ac yn defnyddio siapiau gwahanol liwiau fel hidlyddion i newid yr hyn a welant â'u llygaid. Mae sgiliau rhifedd y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n briodol. Maent yn cyfrif gyda'i gilydd yn ystod gweithgareddau ac mae lleiafrif yn dechrau adnabod y berthynas rhwng symiau o wrthrychau a digid arbennig. Mae rhywfaint yn egluro bod gwahanol wrthrychau yn debyg o ran ffurf i siapiau tri dimensiwn, er enghraifft yn egluro bod yr afal fel siâp pêl. Mae bron bob un o'r plant yn dangos diddordeb cynyddol yn y byd

naturiol trwy weithgareddau difyr fel gwylio’r glöyn byw yn datblygu dros amser a gofalu am ystod eang o lysiau yn yr ardd.

**Gofal a datblygiad:**

Mae polisïau a gweithdrefnau hynod effeithiol i gefnogi iechyd a llesiant y plant. Mae'r holl ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid da gan atgoffa'r plant yn dyner i olchi eu dwylo pan ddônt i mewn o'r ardd. Mae'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant ac yn dilyn polisïau sy'n ymwneud â diogelu plant yn dda. Maent yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon am blentyn. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan yr holl ymarferwyr gymwysterau cymorth cyntaf cyfredol ac mae ffurflenni damweiniau'n dangos yr ymdrinnir â digwyddiadau'n effeithiol ac mae’r rhieni'n cael eu hysbysu gan ap. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ddeiet iach ac maent yn darparu digonedd o fyrbrydau amrywiol a maethlon i'r plant. Maent yn sicrhau bod cofnodion y plant yn cael eu cwblhau’n llawn, gan gynnwys eu hanghenion iechyd. Mae cofnodion o ymarferion tân rheolaidd yn dangos bod yr ymarferwyr a'r plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel.

Mae ymarferwyr hynod alluog yn rheoli rhyngweithiadau'r plant yn effeithiol, gan gefnogi a hwyluso eu chwarae yn dda. Maent yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn gyson ac yn cefnogi'r plant yn unol â'u hanghenion unigol mewn modd sensitif. Mae hyn yn gryfder yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn feddylgar ac yn canmol ac annog y plant yn serchog ac â hiwmor da, sy'n effeithiol. Maent yn rhoi gofal ymatebol naturiol ac yn meithrin y plant, ac mae'r plant yn ffynnu o ganlyniad. Defnyddiant leisiau tawel wrth egluro, gan wneud yn siŵr bod pob plentyn yn deall, yn enwedig y rhai sydd â sgiliau cyfathrebu llafar cyfyngedig. Er enghraifft, maent yn gofyn am 'draed yn cerdded' wrth ofyn i’r plant beidio â rhedeg. Maent yn sensitif ac yn ymgysylltu'n llwyddiannus â grwpiau bach a phlant unigol, er enghraifft maent yn gorwedd ar y llawr gyda nhw yn esgus ei bod hi'n amser gwely ar y cloc. Maent yn annog y plant i ddweud diolch ac mae gweithredoedd bach o garedigrwydd yn cael eu cydnabod a'u dathlu. Mae'r ymarferwyr yn siarad â'r plant yn dyner ac yn eu hatgoffa i fod yn ofalus wrth ddewis lle i eistedd wrth ymyl eu ffrindiau am stori.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo dysgu a datblygiad y plant yn dda trwy ddarparu cyfleoedd chwarae diddorol wedi'u haddasu i ddiwallu anghenion unigol. Er bod yr ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da i'r plant ddatblygu eu sgiliau, nid oes digon o gyfleoedd dysgu yn ystod amser byrbrydau a phrydau bwyd. Mae'r ymarferwyr yn gwybod pryd i ganiatáu i’r plant chwarae ar eu pen eu hunain a phryd i arwain a rhoi cymorth. Mae'r ymarferwyr yn awyddus a brwdfrydig ac adlewyrchir hyn yn wynebau'r plant a'u hagweddau at ddysgu a chwarae.

**Addysgu ac asesu (dim ond yn berthnasol i blant tair neu bedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae perthynas gefnogol gref rhwng yr ymarferwyr ac adlewyrchir hyn hefyd yn y berthynas ofalgar agos rhwng y plant a'r oedolion yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn meithrin ethos o barch y naill at y llall ymhlith y plant trwy'r ffocws cyson ar fod yn feddylgar a gofalgar o'u cyfoedion. Mae'r staff yn modelu hyn yn effeithiol iawn. Maent yn pwysleisio bod gan weithredoedd ganlyniadau a bod disgwyl i'r plant feddwl am effaith eu gweithredoedd ar eraill.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn trefnu'r lleoliad a'r adnoddau'n effeithiol. O ganlyniad, mae'r plant yn cymryd rhan lawn mewn cyfnodau estynedig o chwarae di-dor. Mae'r lleoliad wedi datblygu ei ddarpariaeth yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru a chaiff hyn effaith fuddiol ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda i sicrhau bod y cynllunio yn seiliedig ar y disgwyliadau diweddaraf. Maent yn datblygu eu cynllunio i adlewyrchu diddordebau'r plant ac yn darparu cyfleoedd ysgogol a heriol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i'r plant ddysgu am dreftadaeth a diwylliant Cymru, ochr yn ochr ag ystod o draddodiadau o ddiwylliannau byd-eang eraill.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn trafod eu cynllunio yn rheolaidd a'r ffordd y maent yn datblygu eu hymagwedd yng ngoleuni newidiadau i'r cwricwlwm. Adlewyrchir yr elfen hon yn eu hymagwedd at hunanwerthuso, sy'n agored ac yn fyfyriol. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn addasu eu cefnogaeth i unigolion yn ôl eu hanghenion. Maent yn trefnu'r gwahanol feysydd darpariaeth yn ofalus gan ychwanegu adnoddau ychwanegol i hyrwyddo datblygiad gwahanol sgiliau ymhlith y plant. Er enghraifft, maent yn darparu ystod o lwyau a lletwadau gwahanol meintiau i'r plant arbrofi ar faint o ddŵr gallant symud i ben pibell cyn ei wylio'n llifo i lawr i'r basn islaw. Mae'r ymarferwyr wedi cyflwyno elfennau megis 'gwahoddiad i chwarae' yn y gwahanol feysydd darpariaeth, er mwyn herio ac annog y plant i feddwl a gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i'r plant gydweithio i ddatrys problemau heriol wedi eu datblygu gystal.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu cydbwysedd effeithiol o chwarae rhydd a gweithgareddau a arweinir gan oedolion i sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ganolbwyntio ar sgiliau penodol. Er enghraifft, maent yn darparu adnoddau i annog y plant i ddatblygu medrau echddygol manwl wrth ddefnyddio sisyrnau i wneud cacen pen-blwydd arbennig gan ddefnyddio toes pinc. Mae'r ymarferwyr yn gofyn cwestiynau treiddgar yn fedrus, neu'n gwneud arsylwadau meddylgar sydd wedi'u cynllunio i wneud i'r plant ystyried a meddwl drostynt eu hunain. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu annibyniaeth y plant. Mae'r ymarferwyr yn camu'n ôl yn rheolaidd ac yn arsylwi ar y plant yn chwarae, gan nodi cynnydd ac addasu eu cynlluniau yn unol â hynny i gefnogi a chynnal y cynnydd. Maent yn rhannu gwybodaeth ymhlith y tîm yn dda. Maent yn hysbysu rhieni am gynnydd eu plentyn trwy gyfarfodydd rheolaidd a thrwy rannu gwybodaeth trwy raglen ddefnyddiol ar-lein.

**Yr amgylchedd:**

Mae'r adeilad yn lân ac yn ddiogel gan gynnwys yr ardal chwarae awyr agored a'r ardd. Mae gatiau mynediad wedi'u cloi, gan wneud y lleoliad yn ddiogel i'r plant. Mae asesiadau risg ysgrifenedig cynhwysfawr yn nodi unrhyw beryglon posibl yn effeithiol ac yn cadw'r plant yn ddiogel. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod heintiau'n cael eu rheoli'n briodol gan arwain at amddiffyn y plant a'r staff.

Mae'r arweinwyr wedi llwyddo i greu amgylchedd dysgu cefnogol ac ymlaciol, sy'n ystyried diddordebau ac anghenion plant. Mae digon o le mewn amgylchedd croesawgar a threfnus. Mae gan y plant ymdeimlad o berthyn gan fod ganddynt begiau gyda disgiau pren â'u henwau arnynt i hongian eu heiddo a disgiau pren i'w hongian ar eu coeden gofrestru sy'n goleuo i ddechrau'r sesiwn. Mae'r lleoliad yn gwbl gynhwysol lle gall pob plentyn fwynhau'r holl weithgareddau a phrofiadau. Mae

cynllun a dyluniad yr amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn hyrwyddo annibyniaeth y plant ac yn diwallu eu hanghenion yn hynod lwyddiannus. Er enghraifft, mae byrddau a chadeiriau lefel isel yn galluogi'r plant iau i eistedd gyda'i gilydd i fwyta byrbryd neu weithio gyda gweithgareddau pen bwrdd. Mae ardaloedd chwarae a dysgu diddorol sydd ag adnoddau eithriadol o dda. Mae'r rhain yn hygyrch iawn i'r plant, sy'n eu galluogi i ddatblygu eu chwarae a'u hannibyniaeth eu hunain trwy ddewis eu teganau a'u hoffer eu hunain yn effeithiol.

Mae ystod ardderchog o adnoddau glân sy'n cael eu cynnal yn dda yn annog chwilfrydedd naturiol y plant i ddysgu a datblygu trwy chwarae. Er enghraifft, mae'r gegin fwd yn darparu cyfleoedd da i'r plant fod yn ddychmygus a dilyn gwahanol ryseitiau. Mae adnoddau ar lefel isel i feithrin annibyniaeth, gan ganiatáu i'r plant ddatblygu eu sgiliau chwarae a'u hannibyniaeth eu hunain trwy ddewis eu teganau a'u hoffer eu hunain yn effeithiol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant fynediad at ystod o adnoddau ac offer sydd o ansawdd da, yn naturiol ac wedi'u hailgylchu, fel blychau ar gyfer plannu a phibellau ar gyfer gemau dŵr.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn rhannu gweledigaeth ar gyfer datblygu darpariaeth sy'n seiliedig ar sicrhau cyfle cyfartal i bawb. Llesiant y plant yw eu blaenoriaeth gyntaf a chânt eu cefnogi'n fedrus gan y tîm o ymarferwyr yn y lleoliad i sicrhau profiad boddhaus i'r plant yn eu gofal. Caiff yr arweinwyr a'r rheolwyr eu cefnogi'n fedrus gan bwyllgor rheoli gwerthfawr.

Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd dysgu hynod ddeniadol a chefnogol i'r holl blant sy'n mynychu. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus i gyflwyno profiadau i'r plant yn seiliedig ar y cwricwlwm newydd ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddatblygiad y plant ac yn ymdrechu'n gyson i wella ym mhob agwedd ar y ddarpariaeth.

Mae diwylliant cryf o fyfyrio yn y lleoliad. Mae prosesau wedi'u sefydlu'n dda ac yn cael eu defnyddio'n hyblyg i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei hadolygu'n gyson. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn trafod arferion, beth aeth yn dda a beth ddylid ei ddatblygu ymhellach. Maent yn ystyried ystod eang o dystiolaeth, a gymerwyd o'u harsylwadau eu hunain o'r plant yn chwarae, a syniadau rhanddeiliaid eraill fel tîm cynghori blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol, a syniadau rhieni a gofalwyr. Mae'r broses hunanwerthuso yn amlygu blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella. Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer gwella yn darparu fframwaith defnyddiol i fesur y camau bach a gymerwyd ar y daith wella. Er enghraifft, ychwanegodd yr arweinwyr ystod o adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) at y ddarpariaeth, a wnaeth wella cyfleoedd a hyder y plant wrth ddefnyddio technoleg yn llwyddiannus. Roedd yr arweinwyr hefyd yn targedu defnydd yr ymarferwyr o'r Gymraeg i ddatblygu hyder y plant wrth ddefnyddio'r iaith yn ystod eu chwarae. Cafodd yr ymarferwyr hyfforddiant perthnasol a wnaeth fagu eu hyder, ac mae hyn yn cael effaith wirioneddol ar ddealltwriaeth a mwynhad y plant o'r iaith.

Lleolir y lleoliad o fewn yr ysgol leol ac mae perthynas hirsefydlog a chefnogol yn bodoli rhwng y ddau ddarparwr. Mae hyn yn cynorthwyo'r broses bontio yn effeithiol. Mae'r arweinwyr yn cydweithio'n llwyddiannus â thîm ymgynghorol yr awdurdod lleol

a phartneriaid eraill i sicrhau ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer yr ymarferwyr. Enghraifft dda o gydweithio yw'r cyfleuster ysgol goedwig, sydd wedi'i leoli ar y safle. Mae'r ymarferwyr wedi manteisio ar hyfforddiant, sydd wedi datblygu eu gallu i ddarparu cyfleoedd dysgu awyr agored cyfoethog i'r plant. Mae systemau effeithiol ar gyfer monitro a gwerthuso’r staff wedi'u hen sefydlu. Mae'r ymarferwyr wedi ymgymryd ag ystod effeithiol o gyfleoedd dysgu proffesiynol, gan ganolbwyntio ar elfennau megis cynllunio ymatebol a pharatoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae trefniadau cadarn ar waith ar gyfer sefydlu ac arfarnu.

Mae gan y lleoliad berthynas waith agos gydag ystod o asiantaethau cymorth, sy'n rhoi cyngor ac arweiniad ar elfennau megis cefnogi'r plant sydd ag anghenion lleferydd ac iaith. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n agos gyda rhieni a gofalwyr a chyda grwpiau cymunedol lleol i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Er enghraifft, cymerodd y plant ran yn nathliad lleol Jiwbilî Platinwm y Frenhines.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru).

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/08/2022